AMHEUS? – CADWCH NHW ALLAN!

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'w gwsmeriaid.
O ganlyniad mae gofal cwsmeriaid yn flaenoriaeth i ni a byddwn yn cynnig cymorth er mwyn diogelu cwsmeriaid rhag swyddogion ffug a allai alw heibio eu cartrefi.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cydweithio mewn partneriaeth â'r pedwar Heddlu Cymreig a Crimestoppers Cymru er mwyn atal byrgleriaid, a byddwn yn gweithio'n galed i wella ein gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, eiddil neu anabl, a chwsmeriaid gydag anawsterau dysgu.

Byddwn yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwnnw ar ffurf mentrau sy'n gweithio er lles cwsmeriaid, ynghyd â chyngor a gwybodaeth ymarferol i'w helpu.

Trechu swyddogion ffug

Y peth pwysig i gofio yw fod pob aelod o'n staff yn cario cerdyn neu brawf identiti, felly gofynnwch i'w weld bob tro. Os bydd rhywun yn galw heibio heb gerdyn ID ac yn methu dangos un ar gais, mae'n debyg na fyddant yn gweithio i Dŵr Cymru - felly cadwch nhw allan.

Os bydd galwr yn gallu dangos cerdyn ID a'ch bod am ei gadarnhau, galwch ein llinell gymorth galwyr ffug yn ddi-dâl ar **0800 281 141**.

Os byddwch wedi cofrestru ar gyfer ein cynllun cyfrinair, cofiwch ofyn amdano. Bydd ein cynrychiolwyr yn ei wybod, felly os na fydd y bobl wrth y drws yn gallu cadarnhau'r cyfrinair cadwch nhw allan.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer ein cynllun cyfrinair ac am wneud hynny, galwch ni'n ddi-dâl ar **0800 052 0138** a gofyn am ein llyfryn 'Gwasanaethau Ychwanegol'. Llenwch eich manylion ac anfonwch y ffurflen atom (post am ddim).

Diogelu eich cartref

- Gosod a defnyddio cadwyn ar eich drws
- Cloi ffenestri a drysau ar bob amser
- Cadw pethau gwerthfawr allan o'r golwg
- Bod yn ofalus iawn gyda rhywun sy'n galw gyda'r nos.

Dieithryn wrth y drws

- Defnyddio twll ysbïo neu edrych drwy'r ffenestr i weld pwy sydd yno
- Os nad ydych yn eu 'nabod - cadwch y gadwyn ar y drws
- Gofyn am brawf identiti
- Os yn ansicr, holwch ymhellach. Galwch ni ar **0800 281 141** neu ffoniwch yr heddlu.u have any doubt
- Cadwch nhw allan os yn amheus.
- Os yn aelod o'n cynllun cyfrinair - gofynnwch am eich cyfrinair.

COFIWCH

Os yn amau rhywun wrth y drws, galwch yr heddlu lleol yn syth. Byddai disgrifiad o'r person a manylion cerbyd yn help mawr.

Ac os yn gweld rhywun yn ymddwyn yn amheus, gallwch hefyd alw Crimestoppers Cymru ar 0800 555 111.

Esgusodion gan bobl ffug er mwyn dod i mewn i'ch cartref

- Honni eu bod yn cynrychioli Dŵr Cymru ac yn chwilio am ddŵr yn gollwng neu am brofi pwysedd y dŵr
- Am brynu hynafolion (antiques)
- Honni eu bod yn gwerthu yswiriant, carpedi, offer glanhau, ffenestri ac ati
- Chwilio am anifeiliaid coll
- Gofyn am gyfeiriadau
- Car wedi torri lawr ac angen galw am help.

Cadw'n effro

- Cymryd camau rhesymol i ddiogelu eich hun, o dderbyn fod rhai cymeriadau amheus o gwmpas
- Prynu cadwyn a thwll ysbïo ar gyfer y drws, o siopau nwyddau cartref neu DIY
- Os am help siaradwch â chymydog, ffrind neu berthynas. Ac os am fwy o gyngor a gwybodaeth, cysylltwch â swyddfa'r heddlu.

Dŵr Cymru
Welsh Water